# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Adroddiad Datblygiad Ansawdd Aer 2019 – Crynodeb Gweithredol

Er mwyn cyflawni Rhan IV o Ddeddf Amgylchedd 1995
Rheoli Ansawdd yr Aer Lleol

Dyddiad (Awst, 2019)

## Ansawdd yr Aer yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Prif ffynhonnell llygredd yr aer ym Merthyr Tudful yw traffig ffordd. Mae CBSMT felly'n bryderus ynghylch $NO_2$. Mae rhwydwaith o diwbiau tryledol yn gweithredu trwy'r ardal. Yn ystod y 6 mlynedd ddiwethaf, cofnodwyd y cofnod uchaf o $NO_2$ yn yr ardal yn 2013 ac mae'r lefel, ers hynny wedi gostwng. Mae'r gostyngiad hyn wedi lefelu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Nid oes gan y mwyafrif o leoliadau ym Merthyr Tudful yr un crynodiad o $NO_2$ sydd oddi fewn i'r nod ansawdd aer cymedrig, blynyddol.

Mewn nifer fechan o leoliadau (Rhif 3) roedd y crynodiad yn uwch na lefel y nod ansawdd aer cymedrig, blynyddol ac ers 2017 mae Cynllun Gweithredu Ansawdd (AQMA) wedi bod yn ei le ar hyd Ffordd Twynyrodyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar <https://uk-air.defra.gov.uk/aqma/local-authorities?la_id=402> ac ar www.merthyr.gov.uk <http://www.merthyr.gov.uk>. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a chymeradwyaeth gan y Cyngor, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru'r cynllun gweithredol i wrthdroi llif y traffig ar hyd Stryd Fawr Pontmorlais a Heol yr Eglwys fel camau cychwynnol i ymdrin â'r AQMA.

Ar 28 Mai 2019, cafodd y llif traffig ei wrthdroi ar hyd Stryd Fawr Pontmorlais a Heol yr Eglwys. Darparodd hyn lwybrau amgen, i ffwrdd o Tesco a chanol y dref yn hytrach na bod angen defnyddio Heol Twynyrodyn. Ymddengys fod traffig sy'n ymgynnull wedi symud a bod llai o dagfeydd traffig ar Heol Twynyrodyn.

Mae CBSMT hefyd yn ystyried effaith yr ansawdd aer ar ddatblygiadau newydd, a lle y mae hynny'n bosibl, defnyddir amodau cynllunio er mwyn lliniaru'r effeithiau negyddol. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn cefnogi teithio gweithredol a'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus er mwyn lleihau dibyniaeth ar geir.

## Camau i Wella Ansawdd yr Aer

Yn 2018, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus, 12 wythnos o hyd er mwyn trafod AQMA Heol Twynyrodyn. Ymgynghorwyd â'r cyhoedd ar 3 opsiwn er mwyn lleihau'r traffig ar Heol Twynyrodyn. Mynegodd y mwyafrif o ymatebwyr (94%) fod yn well ganddynt yr opsiwn o wrthdroi llif y traffig ar hyd Stryd Fawr Pontmorlais a Heol yr Eglwys. Cymeradwyodd y

Cyngor y dylai cynllun gweithredu gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Derbyniwyd a chymeradwywyd y cynllun gan Lywodraeth Cymru.

Yn mis Tachwedd 2018, cyhoeddodd Adran y Priffyrdd a Pheirianneg, Orchmynion Rheoliadau Traffig. Ar 28 Mai 2019, cafodd y llif traffig ei wrthdroi, yn unol â'r cynllun gweithredu a gymeradwywyd. Er nad oes cyfrifiadau traffig ar gael ar hyn o bryd, mae Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd, yn ystod eu gwaith yn yr ardal ac ar eu teithiau dyddiol wedi sylwi fod llai o dagfeydd traffig ar Heol Twynyrodyn (yr AQMA), a bod peth tagfeydd o amgylch Avenue de Clichy. Ni ystyrir fod hyn yn debygol o achosi risg i iechyd y cyhoedd gan fod tai preswylwyr yn ôl oddi wrth y ffordd ac nid oes unrhyw ardal ar hyd y ffordd lle y byddai pobl yn debygol o aros yno am fwy nag 1 awr. Ar ochr orllewinol Avenue de Clichy mae Afon Taf, felly nid oes unrhyw hafnau stryd posib. Gobeithir y bydd y newid yn y dosbarthiad traffig yn arwain at welliant arwyddocaol yn ansawdd yr aer oddi fewn i'r AQMA.

## Blaenoriaethau Lleol a Heriau

Y flaenoriaeth ar gyfer 2019 oedd gweithredu'r cynllun gweithredu a gymeradwywyd ac ar fonitro a'i effeithioldeb. Er mwyn gwneud hyn, mae tiwbiau tryledol ychwanegol wedi cael eu gosod ar hyd y llwybr traffig sydd wedi ei wrthdroi ac ar strydoedd cyfagos ac mae monitor yr ECC wedi cael ei adleoli i Stryd Fawr Pontmorlais. Os bydd gwrthdroi'r traffig yn llwyddiannus ac yn gwella ansawdd yr aer ar Heol Twynyrodyn, bydd yn caniatáu i'r AQMA gael ei ddiddymu erbyn 2021. Os bydd yn aflwyddiannus, bydd gwaith ychwanegol yn cael ei ystyried mewn cynlluniau gweithredu a fydd yn cael eu diweddaru.

Mae monitro hefyd wedi cael ei ymestyn i gynnwys tiwbiau tryledol ychwanegol mewn mannau a ddynodwyd gan arolwg Sŵn a Seinwedd Llywodraeth Cymru lle y gall traffig trwm hefyd effeithio ar ansawdd yr aer.

Yn ogystal, yn 2018, dynododd rhai misoedd unigol o ddata o diwb tryledol 6/7 Maes Ladysmith y gallai'r cymedr blynyddol o $NO_2$ pe na bai'n cael ei drin, godi'n uwch na 36$\mu g/m^3$, oddi fewn i 10% o nod cymedr blynyddol ansawdd yr aer. Dangosodd arsylwadau fod tagfeydd traffig yn achosi canlyniadau mynediad/allanfa i geir o faes parcio wrth gefn Ysgol Gynradd Gymunedol Troedyrhiw. Er mwyn pennu effaith y maes parcio, cafwyd mynediad dros dro iddo yn Rhagfyr 2018 a hynny drwy system un ffordd. Roedd y

canlyniadau ar gyfer cyfnod 11 a 12 yn 48μg/m$^3$, lle y dangosodd lleoliadau eraill trwy'r ardal gynnydd amlwg yng nghyfnod 12 a ddynododd fod y system un ffordd yn effeithiol er mwyn gwella ansawdd yr aer. Gallai hyn fod yn sgil llif y traffig neu fod llai o bobl yn defnyddio'r maes parcio. Wedi addasiad tueddiad, roedd y cymedr blynyddol yn 34.6μg/m$^3$, yn is na'r lefel sy'n codi pryder. Mae'r maes parcio wedi ei ail agor. Yn seiliedig ar ein profiad o dagfeydd traffig, mae tiwbiau ychwanegol wedi cael eu gosod yn yr ardal hon er mwyn i ni gael darlun llawnach.

## Sut i fod yn rhan

Mae gwybodaeth bellach ynghylch llygredd yr aer yn ogystal â mynediad i adroddiadau ansawdd aer blaenorol ar gael ar www.merthyr.gov.uk <http://www.merthyr.gov.uk>. Gellir gofyn cwestiynau penodol drwy e-bostio PublicHealth@merthyr.gov.uk <mailto:PublicHealth@merthyr.gov.uk> neu drwy ffonio 01685 725000.